***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 11

# RHYDDHAD BONDIAU BUDDSODDI CYLLID ARALL

## **RHAN 1**

## RHAGARWEINIAD

*Trosolwg*

1 (1) Mae'r Atodlen hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhyddhad yn achos trafodiadau tir penodol sy'n gysylltiedig â bondiau buddsoddi cyllid arall.

(2) Mae'r Atodlen wedi ei threfnu fel a ganlyn—

(a) mae'r Rhan hon yn cynnwys diffiniadau o dermau allweddol (paragraff 2);

(b) mae Rhan 2 yn darparu nad yw digwyddiadau penodol sy'n ymwneud â bond buddsoddi cyllid arall i'w trin fel trafodiadau trethadwy (paragraff 3) ac yn darparu ar gyfer eithriadau i hynny (paragraff 4);

(c) mae Rhan 3 yn nodi'r amodau cyffredinol sy'n gymwys i weithrediad y darpariaethau rhyddhad yn Rhan 4;

(d) mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer rhyddhad ar gyfer trafodiadau penodol (paragraffau 13 a 15) yn ogystal â gwneud darpariaeth ynghylch tynnu rhyddhad yn ôl (paragraff 14) ac amgylchiadau pan na fo rhyddhad ar gael (paragraff 17);

(e) mae Rhan 5 yn nodi sut i gymhwyso'r darpariaethau rhyddhad mewn achosion pan fo'r ased sylfaenol yn cael ei ddisodli gan ased arall (paragraff 18) ac yn gosod dyletswydd ar ACC i hysbysu'r Prif Gofrestrydd Tir pan gaiff pridiant tir a gofrestrir o dan yr Atodlen hon ei gollwng (paragraff 19).

*Dehongli*

2 Yn yr Atodlen hon—

mae i "asedau bond", "deiliad bond", "dyroddwr bond" a "cyfalaf" yr ystyron a roddir i "bond assets", "bond-holder", "bond-issuer" a "capital" yn adran 564G o Ddeddf Treth Incwm 2007 (p. 3);

ystyr "bond buddsoddi cyllid arall" ("*alternative finance investment bond*") yw trefniadau y mae adran 564G o Ddeddf Treth Incwm 2007 (p. 3) (trefniadau o ran bondiau buddsoddi) yn gymwys iddynt;

ystyr "buddiant cymwys" ("*qualifying interest*") yw prif fuddiant mewn tir ac eithrio les am gyfnod o 21 mlynedd neu lai;

ystyr "rhagnodedig" ("*prescribed*") yw rhagnodedig mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru;

mae "trefniadau" ("*arrangements*") yn cynnwys unrhyw gytundeb, unrhyw ddealltwriaeth, unrhyw gynllun, unrhyw drafodiad neu unrhyw gyfres o unrhyw un neu ragor o'r pethau hynny (pa un a ellir ei orfodi neu ei gorfodi'n gyfreithiol ai peidio).